

Proffil Swydd / Job Profile

Teitl y Swydd – Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd

Post Title – Head of Place & Sustainability

Adran:	Amgylchedd
Department:	Environment

Is-adran/Adain:	Lle a Chynaliadwyedd
Division/Section:	Place and Sustainability

Responsibilities	Cyfrifoldebau
<ul style="list-style-type: none">• Sustainable Development• Corporate Energy• Net Zero Carbon/Carbon Reduction• Public Health• Food Safety• Enforcement• Development Control• Building Control• Rural Conservation• Forward Planning• Regional Minerals & Waste Planning• Information Systems	<ul style="list-style-type: none">• Datblygu Cynaliadwy• Ynni Corfforaethol• Carbon Sero-net/Lleihau Carbon• Iechyd y Cyhoedd• Diogelwch Bwyd• Gorfodaeth• Rheoli Datblygu• Rheoli Adeiladu• Cadwraeth Wledig• Blaen-gynllunio• Cynllunio Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol• Systemau Gwybodaeth
Gradd/Grade:	Pennaeth y Gwasanaeth / Head of Service

Rhif y Swydd/Post Number:	030984
---------------------------	--------

Paratowyd Gan/Prepared By:	Ruth Mullen
----------------------------	-------------

Dyddiad Paratoi/Date Prepared:	Awst 2021
--------------------------------	-----------

Prif Ddiben y Swydd

- Cefnogi a chynghori'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac Aelodau Etholedig o ran y gwaith cyffredinol o reoli'r Cyngor yn strategol.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Datblygu Cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin, rhoi cyngor a chymorth i Aelodau Etholedig a gweithio'n gorfforaethol gyda chydweithwyr i gyflawni blaenoriaethau adfywio'r Cyngor.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (Ebrill 2021), gan sicrhau bod ceisiadau cynllunio sy'n cefnogi swyddi a datblygu economaidd yn cael eu prosesu'n effeithlon, cynnydd yn y cyflenwad tai ac adferiad canol trefi.
- Arwain ar ddull y Cyngor o hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol yn unol â chyfrifoldebau ehangach y Cyngor ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, gan gynnwys Amcanion Llesiant y Cyngor a sicrhau bod y camau a gymerir yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.
- Sicrhau diwylliant o reoli perfformiad, gwella gwasanaethau'n barhaus, gwerthuso ac adolygu perfformiad, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Cyfrannu at Dîm Rheoli Adrannol yn yr Adran Amgylchedd drwy gymryd yr awenau ar faterion sydd wedi'u dyrannu fel rhan o bortffolio corfforaethol y swydd.
- Arwain, rheoli, datblygu a gweithredu strategaethau perthnasol a fydd yn darparu Gwasanaeth Cymunedau Cynaliadwy cynhwysfawr ac effeithiol yn unol â nodau ac amcanion y Cyngor.

Prif dasgau/cyfrifoldebau

- Darparu arweinyddiaeth glir a gweladwy a chyfeiriad strategol sy'n ysbrydoli gweithio mewn tîm ac yn sicrhau lefelau uchel o ymrwymiad ymhlith rheolwyr a gweithwyr i ddarparu gwasanaethau eithriadol.
- Bod yn ben-ymgyngorydd i'r Prif Weithredwr ac i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y prif faterion a strategaethau sy'n berthnasol i amrywiol bortffolios gwasanaeth y gyfarwyddiaeth, gan sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol iddynt er mwyn gofalu y ceir y canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaethau.
- Cefnogi'r Pennaeth Adfywio i ymgysylltu â darpar ddatblygwyr a buddsoddwyr mewn modd rhagweithiol - hyrwyddo, annog a hwyluso cyfleoedd datblygu ledled y Sir.

- Gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol i sicrhau bod lleihau carbon ac amcanion cynaliadwyedd pellach yn rhan annatod o'n gwasanaethau ac yn cefnogi amcan Carbon Seronet y Cyngor a chynigion adfer economaidd.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisiau a fframweithiau cyflawni/cynlluniau gweithredu ar reoli ynni, ansawdd aer a thir halogedig i fodloni dyheadau carbon niwtral y Cyngor a datblygu cynaliadwy.
- Datblygu diwylliant sy'n annog gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â'r rheiny yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o bob cyfle a hynny er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'r Cyngor ac i drigolion Sir Gaerfyrddin.
- Hybu a meithrin diwylliant trefniadaethol y mae heriau, arloesi ac atebion creadigol yn rhan arferol ohono, gan hyrwyddo enw da y Cyngor o fod yn un o'r awdurdodau lleol sy'n cyrraedd y brig ac sy'n gyflogwr da, a hyrwyddo hynny'n flaenweithgar.
- Arwain ar arfarniadau o'r opsiynau, datblygu dichonoldeb a gweithredu prosiectau gan gynnwys caffael contractwyr ac ymgynghorwyr, rheoli timau prosiect, cyflawni'r holl gymeradwyaethau angenrheidiol, rheoli risg, cynllunio busnes ariannol, cyfathrebu ac ymgysylltu.
- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am arwain a phennu, monitro a rheoli cyllidebau ac adnoddau y gwasanaethau perthnasol sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth.
- Sicrhau bod gan swyddogion gymwysterau addas a chymwys mewn meysydd perthnasol a chefnogi datblygiad parhaus i weithio tuag at wasanaeth gwydn a chynaliadwy.
- Sicrhau bod gwaith yr is-adran yn cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol sy'n benodol i'r gwasanaeth a dyletswyddau corfforaethol ehangach eraill ar y Cyngor.
- Bod yn gyfrifol am reolaeth strategol a gweithredol swyddogaethau cynllunio'r Cyngor gan gynnwys y Cynllun Datblygu, mwynau, rheoli datblygu, cadwraeth a rheoli adeiladu.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor a fydd yn sicrhau bod holl bolisiau'r Cyngor o ran cynllunio defnydd tir, cynllunio trafndiaeth, datblygu economaidd, gwella iechyd a'i bolisiau cymdeithasol a chymunedol yn cael eu hintegreiddio o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy.
- Cefnogi'r gwaith o lunio polisiau'r Cyngor ynghylch yr holl faterion cynllunio, trwyddedu a gorfodi a sicrhau bod y rhain yn cael eu trosi'n gynlluniau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cydfynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, cenedlaethau'r dyfodol a llesiant.
- Bod yn gyfrifol am amddiffyn unigolion rhag niwed a hyrwyddo gwell iechyd.
- Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn ar gyfer busnesau a dinasyddion yn Sir Gaerfyrddin.

Yn gyfrifol am staff/offer

Bydd yr is-adran yn cyflogi tua 130 o aelodau staff gyda chyllideb net o fwy na £8.21m

Yn atebol i

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd

Meini Prawf	Hanfodol
<p>Cymwysterau/</p> <p>Hyfforddiant Galwedigaethol/</p> <p>Aelodaeth Broffesiynol</p>	<p>Yn meddu ar radd neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol proffesiynol.</p> <p>Cymhwyster rheoli perthnasol neu dystiolaeth bendant o ddatblygiad proffesiynol parhaus a/neu brofiad o fod yn uwch-reolwr.</p>
<p>Y Sgiliau sy'n Ymwneud â'r Swydd/</p> <p>Galluoedd</p>	<p><u>GALLUOEDD</u></p> <p>Penderfynu ynghylch Camau a'u Rhoi ar Waith</p> <p>Gwneud penderfyniadau cyflym a chlir a allai olygu gwneud dewisiadau anodd neu gymryd risgiau ystyriol; Cymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu, prosiectau a phobl; Bod yn flaengar ac yn hyderus a gweithio heb gyfarwyddyd; Ysgogi a chreu gweithgaredd.</p> <p>Arwain a Goruchwylio.</p> <p>Rhoi arweiniad clir i eraill; Pennu safonau ymddygiad priodol; Dirprwyo gwaith yn briodol ac yn deg; Ysgogi a grymuso eraill; Rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu a chael hyfforddiant personol; Recriwtio staff o'r radd flaenaf.</p> <p>Glynu wrth Egwyddorion a Gwerthoedd</p> <p>Cynnal safonau moesol a gwerthoedd; Arddangos gonestrwydd; Hyrwyddo ac amddiffyn cyfleoedd cyfartal, adeiladu timoedd amrywiol; Hybu cyfrifoldeb trefniadol ac unigol tuag at y gymuned a'r amgylchedd.</p> <p>Darbwylio a Dylanwadu</p> <p>Gwneud argraff bersonol gref ar eraill; Ennill dealltwriaeth glir ac ymrwymiad gan eraill drwy ddarbwylio, argyhoeddi a chyd-drafod; Hybu syniadau ar eich rhan eich hun neu ar ran eraill; Defnyddio prosesau gwleidyddol yn effeithiol i ddylanwadu ar eraill ac i'w darbwylio.</p> <p>Cyflwyno a Chyfathrebu</p> <p>Siarad yn glir ac yn rhugl; Mynegi barn, gwybodaeth a phwyntiau allweddol dadl yn glir; Gwneud cyflwyniadau a siarad yn gyhoeddus yn fedrus ac yn hyderus; Ymateb yn gyflym i anghenion cynulleidfa ac i'w hymatebion a'u hadborth; Sicrhau hygrededd.</p> <p>Llunio Strategaethau a Chysyniadau</p> <p>Gweithio'n strategol i wireddu amcanion trefniadol; Pennu a datblygu strategaethau; Clustnodi a threfnu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni tasgau; Monitro perfformiad yn unol â dyddiadau cau a cherrig milltir.</p>

	<p>Addasu ac Ymateb i Newid</p> <p>Addasu i amgylchiadau newidiol; Derbyn syniadau newydd a mentrau ar gyfer newid; Addasu arddull ryngpersonol yn ôl yr hyn sy'n addas i wahanol bobl neu sefyllfaoedd; Dangos parch a sensitifrwydd tuag at wahaniaethau diwylliannol a chrefyddol; Ymdrin ag amwysedd gan wneud defnydd cadarnhaol o'r cyfleoedd y mae hynny'n ei gyflwyno.</p> <p>Dadansoddi</p> <p>Dadansoddi data rhifyddol, data geiriol a phob ffynhonnell wybodaeth arall. Rhannu gwybodaeth yn gydrannau, patrymau a pherthnasoedd. Ymchwilio i gael rhagor o wybodaeth neu well dealltwriaeth o broblem, gwneud dyfarniadau rhesymegol o'r wybodaeth a'r dadansoddiad sydd ar gael. Cynnig atebion ymarferol i amrywiaeth o broblemau. Dangos dealltwriaeth fod un mater yn gallu bod yn rhan o system lawer mwy.</p>
<p>Gwybodaeth</p>	<p>Dealltwriaeth glir o agenda'r Llywodraeth ar gyfer Llywodraeth Leol, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.</p> <p>Dangos gwybodaeth bendant am bolisi, strategaeth a darpariaeth sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, cynllunio, gorfodi a newid yn yr hinsawdd ac arwain timau i gyflwyno rhaglenni a mentrau gyda dawn i weithio mewn partneriaeth.</p>
<p>Profiad</p>	<p>Profiad llwyddiannus o reoli strategol mewn sefydliad mawr.</p> <p>Profiad o ran datblygu a gweithredu strategaethau gwasanaeth sy'n darparu gwelliannau amlwg.</p> <p>Profiad o gyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy ddefnyddio a hyrwyddo TGCh.</p> <p>Tystiolaeth o arwain newid sylweddol mewn trefniadaeth a gwasanaethau a rheoli'n llwyddiannus y goblygiadau o ran rheoli pobl.</p>
<p>Rhinweddau Personol</p>	<p>Meddu ar gymhelliant cryf a'r gallu i gymell eraill mewn amgylchedd tîm.</p> <p>Rheoli materion sensitif a gwleidyddol yn hyderus gan weithio'n ddiplomataidd i gyflawni canlyniadau positif ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Y gallu i ennyn ymddiriedaeth, didwylledd, a chydraddoldeb drwy ryngweithio â phobl o amrywiol gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, ac addysgol.</p> <p>Arddangos sgiliau rhyngpersonol gwych sy'n eich galluogi i feithrin cysylltiadau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid/partneriaid perthnasol, gan gynnwys Undebau Llafur.</p>

	<p>Meddu ar feddylfryd strategol tuag at lunio gwasanaethau sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau corfforaethol ac sy'n integreiddio â gweithgareddau cyflenwol ar draws y Cyngor ac yn gweddu iddynt.</p> <p>Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth ariannol gan ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i sicrhau rheolaeth ac atebolrwydd effeithlon o ran y gyllideb.</p>
	Dymunol

Sgiliau Iaith/Cyfathrebu	Sgiliau Siarad	Sgiliau Ysgrifennu
Cymraeg	3 language-skills-assessment-and-guidance.docx	3
Saesneg	5	5
Arall (nodwch)	Nodwch Lefel	Nodwch Lefel

GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD	
Gall gwiriadau DBS fod yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Mae'r canlynol yn ofynnol ar gyfer y swydd hon:	Nodwch y gofynion yn y blychau

NID OES ANGEN GWIRIAD DBS	<input checked="" type="checkbox"/>
Adran A – y math o ddatgeliad	
DATGELIAD SAFONOL	<input type="checkbox"/>
DATGELIAD MANWL	<input type="checkbox"/>
DATGELIAD MANWL GAN WIRIO'R RHESTR WAHARDD	<input type="checkbox"/>
Adran B – math o weithlu	
Y GWEITHLU PLANT	<input type="checkbox"/>
Y GWEITHLU OEDOLION	<input type="checkbox"/>
Y GWEITHLU PLANT AC OEDOLION	<input type="checkbox"/>
GWEITHLU ARALL	<input type="checkbox"/>

Y RHESWM
Cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Adnoddau Dynol cyn penderfynu a yw Gwiriad DBS yn ofynnol ar gyfer y swydd hon. Cofnodwch eich rhesymau yma

UNRHYW WYBODAETH ARALL

Swydd Gyfyngedig:

(Sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd fod yn wleidyddol ddiiduedd)

Main Purpose of Job

- To support and advise the Corporate Management Team and Elected Members in the overall strategic management of the Council.
- To support the delivery of Sustainable Development in Carmarthenshire, providing advice and assistance to Elected Members and working corporately with colleagues to deliver the Council's regeneration priorities.
- To support the delivery of the Carmarthenshire Economic Recovery & Delivery Plan (April 2021), ensuring efficient processing of planning applications that support jobs and economic development, increased housing supply and town centre recovery.
- To lead on the Council's approach to promoting environmental sustainability in line with the wider Council's Well Being of Future Generation responsibilities,
- To support the delivery of the Council's Corporate Strategy, including the Council's Well-being Objectives and ensuring the steps taken are in accordance with the sustainable development principle of the Well-being of Future Generations Act – improving the economic, social, environmental and cultural well-being of Carmarthenshire.
- To ensure a culture of performance management, continuous service improvement, evaluation and performance review, and that resources are used economically, efficiently and effectively.
- To contribute to the Environment Departmental Management Team (DMT) by taking the lead on issues allocated as part of the post's corporate portfolio.
- To lead, manage, develop and implement relevant strategies that will deliver a comprehensive, effective and focused Sustainable Communities Service in accordance with the Council's aims and objectives.

Key tasks/responsibilities

- Provide clear and visible leadership and strategic direction that inspires team working and secures high levels of commitment amongst managers and employees to deliver exceptional services.
- Be the principal advisor to the Chief Executive and Executive Board on the key issues and strategies relevant to the various service portfolios of the directorate, securing both corporate and political support that will ensure the best possible outcomes for service users.
- To support the Head of Regeneration in engaging with prospective developers and investors in a proactive manner - promoting, encouraging and facilitating development opportunities throughout the County.
- Work with colleagues and external stakeholders to ensure that carbon reduction and further sustainability objectives are embedded within our services and support the Council's Net Zero Carbon objective and economic recovery proposals.

- To be responsible for the development, implementation and review of policies and delivery frameworks/action plans on energy management, air quality and contaminated land to meet the carbon neutral aspirations of the Council and sustainable development.
- Develop a culture of partnership working with other public bodies as well as those in the private and voluntary sectors to ensure that all opportunities are maximised to the best advantage of the Council and the residents of Carmarthenshire.
- Promote and foster an organisational culture in which CONSTRUCTIVE challenge, innovation and creative solutions are the norm, promoting the Council's reputation as a top performing local authority and good employer.
- Lead on options appraisals, feasibility development and project implementation including procuring contractors and consultants, managing project teams, achieving all necessary approvals, risk management, financial business planning, communication, and engagement.
- To have overall responsibility for leading, setting, monitoring, and controlling the budgets and resources for the relevant service elements of the Directorate.
- To ensure that officers are suitably qualified and competent in relevant areas and support continuous development to work towards a resilient and sustainable service.
- To ensure the work of the division complies with all statutory duties specific to the service and other wider corporate duties on the Council.
- To be responsible for the strategic and operational management of the Council's planning functions including the local development plan, minerals, development control, conservation and building control.
- To be responsible for the development and maintenance of the Council's Local Development Plan (LDP) which will ensure the integration of all the Council's land using planning, transport planning, economic development, health improvement and social and community policies within a sustainable development framework.
- To support the Council's policy making on all planning, licensing and enforcement matters and to ensure that these are translated, where applicable, into plans, programmes and services which accord with the principles of sustainable development, future generations and well-being.
- To be responsible for the protection of individuals from harm and promote health improvement.
- To promote a fair and just trading environment for businesses and citizens in Carmarthenshire.

Responsible for staff/equipment

The division will employ approximately 130 members of staff with a net budget exceeding £8.21m

Reporting to

Criteria	Essential
Qualifications/ Vocational training/ Professional Memberships	<p>Educated to Degree level or equivalent in a relevant professional subject.</p> <p>A relevant management qualification or demonstrable evidence of continuing professional development and or experience of senior management</p>
Job Related Skills/ Competencies	<p><u>COMPETENCIES</u></p> <p>Deciding & Initiating Action</p> <p>Makes prompt, clear decisions which may involve tough choices or considered risks; Takes responsibility for action, projects and people; Takes initiative, acts with confidence and works under own direction; Initiates and generates activity.</p> <p>Leading & Supervising.</p> <p>Provides others with a clear direction; Sets appropriate standards of behaviour; Delegates work appropriately and fairly; Motivates and empowers others; Provides staff with development opportunities and coaching; Recruits staff of a high calibre.</p> <p>Adhering to Principles & Values</p> <p>Upholds ethics and values; Demonstrates integrity; Promotes and defends equal opportunities, builds diverse teams; Encourages organisational and individual responsibility towards the community and the environment.</p> <p>Persuading & influencing</p> <p>Makes a strong personal impression on others; Gains clear agreement and commitment from others by persuading, convincing and negotiating; Promotes ideas on behalf of self or others; Makes effective use of political processes to influence and persuade others.</p> <p>Presenting & Communicating</p> <p>Speaks clearly and fluently; Expresses opinions, information and key points of an argument clearly; makes presentations and undertakes public speaking with skill and confidence; Responds quickly to the needs of an audience and to their reactions and feedback; Projects CREDIBILITY.</p> <p>Formulating Strategies & Concepts</p> <p>Works strategically to realise organisational goals; Sets and develops strategies; Identifies and organises resources needed to accomplish tasks; Monitors performance against deadlines and milestones.</p>

	<p>Adapting & Responding to Change</p> <p>Adapts to changing circumstances; Accepts new ideas and change initiatives; Adapts interpersonal style to suit different people or situations; Shows respect and sensitivity towards cultural and religious differences; Deals with ambiguity, making positive use of the opportunities it presents.</p> <p>Analysing</p> <p>Analyses numerical data, verbal data and all other sources of information. Breaks information into component parts, patterns and relationships. Probes for further information or greater understanding of a problem, makes rational judgements from the available information and analysis. Produces workable solutions to a range of problems. Demonstrates an understanding of how one issue may be part of a much larger system.</p>
<p>Knowledge</p>	<p>A clear understanding of the Government’s agenda for Local Government at both UK and Wales levels.</p> <p>Demonstrate a proven knowledge of policy, strategy and delivery relating to sustainable development, planning, enforcement and climate change and leading teams to deliver programmes and initiatives with a flair for partnership working.</p>
<p>Experience</p>	<p>A proven track record of successful strategic management within a large organisation.</p> <p>Experience in developing and implementing service strategies that deliver demonstrable improvements.</p> <p>Experience of delivering significant efficiencies through the use and promotion of ICT.</p> <p>Evidence of leading significant organisational and service change together with successfully managing the People Management implications.</p>
<p>Personal qualities</p>	<p>Highly motivated and able to motivate others in a team orientated environment.</p> <p>To confidently manage sensitive and political issues with effective use of diplomacy to achieve positive outcomes for service users.</p> <p>Able to create an environment of trust, openness and equality by interacting with people of various social, cultural, economic and educational backgrounds.</p> <p>Demonstrate excellent interpersonal skills that enable positive relationships with relevant stakeholders/partners, including Trade Unions.</p> <p>Have a strategic mindset towards shaping services that address corporate priorities, integrate and align with complementary activities across the Council.</p>

	Ability to analyse financial information and effectively use the information to ensure efficient budget management and accountability.
	Desirable

Language/ Communication Skills	Spoken Level	Written level
Welsh	3 language-skills-assessment-and-guidance.docx	3
English	5	5
Other (please State)	Indicate Level	Indicate Level

DISCLOSURE AND BARRING SERVICES (DBS) CHECKS
DBS Checks may be required for certain posts which work with children and vulnerable adults. This post requires: Indicate requirement in boxes

NO DBS CHECK REQUIRED	<input checked="" type="checkbox"/>
Section A – type of disclosure	
STANDARD DISCLOSURE	<input type="checkbox"/>
ENHANCED DISCLOSURE	<input type="checkbox"/>
ENHANCED DISCLOSURE WITH BARRED LIST CHECK	<input type="checkbox"/>
Section B – workforce type	
CHILD WORKFORCE	<input type="checkbox"/>
ADULT WORKFORCE	<input type="checkbox"/>
CHILD AND ADULT WORKFORCE	<input type="checkbox"/>
OTHER WORKFORCE	<input type="checkbox"/>

JUSTIFICATION
Please refer to your HR Advisor before deciding whether this post requires a DBS Check. Record your reasons here

ANY OTHER INFORMATION
Restricted Post: (Which requires the post holder to be politically neutral)